# CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR
## COFNODION Y CYFARFOD MISOL
## A GYNHALIWYD AR NOS IAU 20/06/2019
## NEUADD PANTYFEDWEN AM 7.00PM

**1. CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
Croesawodd y Gyngh. Angharad Jones (Cadeirydd) bawb i'r cyfarfod misol.

**2. YN BRESENNOL:** Y Gyngh. Angharad Jones (Cadeirydd); Y Gynghorwraig Laura Jones; Y Gynghorwraig Mair Jones; Y Cynghorydd Non Jones; Y Cynghorydd Alun Price-Jones; Eleri Thomas, Clerc.

**3. YMDDIHEURIADAU**
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Gynghorwraig Clare Hughes oherwydd salwch, Y Cyngh. John Jones; y Cyngh. Wil Lewis; y Cyngh. Gareth Owen; y Cyngh. Doug Rowbotham a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans.

**4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU:**
Penderfynwyd gofyn tybed a oedd datblygiadau parthed y sefyllfa'n ymwneud â lladrata beiciau modur yn ddiweddar yn yr ardal.

**5. DATGAN DIDDORDEB:** Dim wedi'u datgan.

**6. CADARNHAU COFNODION O'R 16eg o Fai 2019**
**CYNIGIWYD** (y Gyngh. Mair Jones) **EILIWYD** (y Cyngh. Alun Price Jones) a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol fod Cofnodion y Cyfarfod o'r 16eg o Fai 2019 yn gywir ac arwyddwyd fel rhai cywir gan y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones.

**7. MATERION YN CODI**

**7.1 Glan-yr-Afon**: parthed tanc olew, canfuwyd nad oedd y tanc olew wedi'i leoli ar lwybr cerdded Glan-yr-Afon nac ar eiddo preswylydd cyfagos. Cytunwyd i adrodd y mater at sylw Cyfoeth Naturiol Cymru.

**7.2 Cais i osod palmant ger y Lloches Bws ym Mhenrhiw, Ffair Rhos:** Rhaglennwyd gwaith safle i ddechrau ym mis Ebrill 2019. Roedd y Gyngh. Clare Hughes wedi symud y blwch blodau o'r safle. Disgwylir manylion pellach. Bydd angen sefydlu ble ail-osodir y blwch blodau a'r fainc, ar ôl cwblhau'r gwaith.

**7.3 Arolwg Ardal Chwarae Pantyfedwen** - Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA) 2019: Cytunwyd i drin â materion sydd angen sylw, cyn yr Archwiliad Ardal Chwarae ROSPA, a drefnwyd ar gyfer mis Mehefin 2019.

**7.4 Arwyddion Ffordd: Lleihau Cyflymder**
Casglodd y Gyngh. Laura Jones yr arwydd oddi wrth y Cwmni *Rebus,*

Stad Ddiwydiannol, Aberystwyth, i'w leoli gyferbyn â Thafarn Teifi, Ffair Rhos. Bydd angen clipiau arbennig. Disgwylir yr anfoneb.

**7.5** **Mae angen tocio'r berth gerllaw Tŷ Wellington, Lôn Fach**. Dywedwyd bod Cyngor Sir Ceredigion yn ymchwilio i'r mater.

**7.6** **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol,** Cyngor Cymuned Ystrad Fflur: 16.05.2019: Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd wedi bod yn bresennol. Dywedodd y Gyngh. Mair Jones nad oedd yn hysbys i nifer o bobl ei fod wedi'i drefnu ar gyfer yr 16.05.2019.

**7.7** **Porth y Gymuned: Cyngor Sir Ceredigion**: ymateb gan Gyngor Sir Ceredigion yn datgan y gallai cynrychiolydd fynychu cyfarfod mis Gorffennaf y Cyngor Cymuned. Cytunwyd i dderbyn y gwahoddiad.

**7.8** **Enwebwyd y Gyngh. Laura Jones** i gynrychioli'r Cyngor Cymuned yn ystod cyfarfodydd Pwyllgor y Neuadd. Ceisodd eglurhad pellach ar beth oedd yn ddisgwyliedig ohoni yn rhinwedd y swydd honno.

**8. GOHEBIAETH**

**8.1** **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru:** Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar Gyfer Sir Ceredigion
Ar 31ain Mai 2019 mae'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru yn cynnwys eu Cynigion Terfynol yn ymwneud â'r arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Ceredigion. Dylid cyflwyno unrhyw gynrychioladau pellach sy'n ymwneud â materion yn yr adroddiad hwn cyn gynted a phosibl a ddim hwyrach na 6 wythnos ar ôl y 30ain Mai 2019 i DÎm Democratiaeth Llywodraeth Cymru, Yr Is-Adran Democratiaeth, Amrywiaeth a Chydnabyddiaeth Ariannol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu lgdtmailbox@gov.wales. **Yr Argymhellion Terfynol ar gyfer Ward Lledrod** – gellir eu gweld ar www.ldbc.gov.wales tudalennau 39/40/41/42/43.

**8.2** **Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020:** Seremoni Cyhoeddi, 29 Mehefin 2019, Aberteifi. Gwahoddiad i 2 Gynghorydd Cymuned i fynychu'r digwyddiad. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngh. John Jones a'r Gyngh. Clare Hughes.

**8.3** **Mynyddoedd Cambrian:** Yn gofyn am gymorth i gwblhau Arolwg. https://www.surveymonkey.co.uk/r/8BQJTXK . Y bwriad yw defnyddio canlyniad yr Arolwg i weithio gyda newyddiadurwr i hyrwyddo'r ardal.

**8.4** **Swyddog Datblygu'r Gymuned a Twristiaeth**: Pentir Pumlumon: yn gofyn tybed a fyddai'n bosibl i drefnu cyfarfod anffurfiol â chynrychiolwyr y Cyngor Cymuned i drafod twristiaeth o fewn yr ardal. Penderfynwyd gwahodd y Swyddog i gyfarfod dyfodol y Cyngor Cymuned.

**8.5 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru:** Gwahoddiad: Cymru Ein Dyfodol: Sgwrs Genedlaethol: 6.06.2018: i sbarduno'r sgwrs cynhelir pedwar digwyddiad ar draws Cymru pan fydd y Comisiynydd yn siarad am y gwaith i gyflawni'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dydd Iau 20 Mehefin 2019 14:00-17:00, Clwb Rygbi Quins, Caerfyrddin.

**8.6 Un Llais Cymru:** Model Brotocol ar gyfer Datrysiadau Anffurfiol: wedi ei anfon eisoes gan Un Llais Cymru gan argymell y dylai'r Cyngor fabwysiadu'r cynllun ar gyfer delio â chwynion lefel isel a dderbynnir o fewn y Cyngor. Ar y cyd ag Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru y mae Un Llais Cymru'n cynnal arolwg i gael gwell dealltwriaeth o faint o gynghorau sydd wedi'i fabwysiadu a faint o aelod gynghorau sy'n defnyddio'r protocol.

**8.7 Un Llais Cymru:** Modylau Dysgu Ar-Lein: mae 7 modiwl dysgu ar-lein ar gael ar gwefan Un Llais Cymru i'w defnyddio gan bob cynghorydd yng Nghymru. Y meysydd a drafodir yw:
Cod Ymddygiad, Y Cyngor yn Gyflogydd; Amrywiaeth a Chynhwysiant; Iechyd a Diogelwch; Sesiwn Gynefino; Cyllid Llywodraeth Leol & Deall y Gyfraith. Gall cynghorwyr fanteisio ar y modylau dysgu ar-lein sylfaenol trwy ddefnyddio'r we-ddolen ganlynol sydd yn adran "gyhoeddus" y wefan. Y cyfan sydd angen iddynt wneud yw gwasgu ar yr eicon o'r new "Hyfforddiant Ar-Lein Sylfaenol".

**8.8 Gohebiaeth pellach: Er gwybodaeth yn unig.**

**9. CYLLID**

**9.1 Cyflog y Clerc: Mai 2019**: £193.83 (Gross).

**9.2 Grant Gwyrdd – Cyngor Sir Ceredigion:** Cyflwynwyd yr anfonebau gerbron y Cyngor Sir.
*Yn disgwyl taliad.*

**9.3 Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned: PENDERFYNWYD** clustnodi sylw pellach i'r Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned yn ystod y cyfarfod nesaf.

**9.4 Archwiliad Ariannol Mewnol / Allanol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2018-19:** Cyngor Cymuned Ystrad Fflur: Ymgymrwyd â'r Archwiliad Mewnol gan Mrs Enid Hughes yn ystod yr wythnosau diwethaf. Dylid cyflwyno dogfennau gerbron yr Archwilwyr Allanol Grant Thornton erbyn y 1af o Orffennaf 2019.
Dosbarthwyd y Crynodeb Derbyniadau a Thaliadau 2018-19.
Mae angen arddangos rhai dogfennau ar wefan y cyngor cymuned ee Rhybudd Hawliau Etholwyr i edrych ar gyfrifon. Gofynnodd y clerc tybed a fyddai'n bosibl iddi gael hawliau golygu mewn perthynas â'r wefan; cytunwyd i glustnodi sylw pellach i'r mater.

**9.5 Hawliau Arwyddo (llyfr siec Cyngor Cymuned Ystrad Fflur) –** 2/3 y Gyngh. Clare Hughes; y Cyngh. Non Jones a'r Cyngh. Doug. Rowbotham. Penderfynwyd i beidio a gwneud newidiadau i'r drefn bresennol.

**10. CYNLLUNIO**

**10.1** **Cyngor Sir Ceredigion**: **Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion cyfarfod diweddar.

**10.2** **Cais Cynllunio**: Rhif y Cais: A190350: Lleoliad: Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid. Ymgeisydd: G. Huckstep. Y Bwriad: Newidiadau arfaethedig i'r annedd presennol. Sylwadau Cyngor Cymuned: Dim Gwrthwynebiad.

**10.3** **Cais Cynllunio**: Rhif y Cais: A190310: Lleoliad: Safle ger Bryn Haul, Heol yr Abaty, Pontrhydfendigaid. Ymgeisydd: G. & W Garner. Y Bwriad: Adeiladu annedd a'r defnydd o garafan yn ystod yr amser datblygu. Sylwadau'r Cyngor Cymuned: Dim Gwrthwynebiad.

**10.4** **Digwyddiad Rhwydweithio / Cynhadledd ar y cyd rhwng** Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru: 11.06.2019, Glasdir, Llanrwst, "Llunio eich Cymuned – Rôl Cynlluniau Cymunedol a Chynlluniau Bro". Mae Cynlluniau Bro yn fenter gymharol newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Maent yn cynnig cyfle ffurfiol i gymunedau lleol, Cynghorau Cymuned a Thref gan amlaf, ychwanegu haen leol iawn o fanylder i'r cynlluniau strategol ehangach a gynyrchir gan awdurdodau cynllunio. Gellir mabwysiadu Cynlluniau Bro yn Ganllawiau Cynllunio Ategol a gall Swyddogion Cynllunio eu defnyddio maes o law wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Mae'r cynlluniau hyn yn ddibynnol ar symbyliad ac arweiniad gwirfoddolwyr lleol, ac maent yn gweithio orau os cânt eu datblygu mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol a budd-ddeiliaid allweddol eraill.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

**11.1** **Adroddwyd bod canghennau o goed yn gordyfu dros brif bont y Pentref (**Sycamorwydden ac onnen) yng nghyffiniau Glan-yr-Afon. Roedd y Cyng Gareth Owen wedi rhoi sylw i'r mater yn ystod y flwyddyn flaenorol. Cytunwyd i adael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf. Nid oedd yr arwydd pont sy'n cyhoeddi 10mya yn weladwy bellach gan ei fod wedi'i orchuddio â llystyfiant.

**11.2** **Adroddwyd bod cerbydau'n teithio ar gyflymder gormodol** yn ardal Lôn Fach a chyffordd y Llew Du.

**11.3** **Roedd perth wedi ymledu dros yr arwydd** "Lleihewch eich cyflymder" ger yr ysgol, gan ei gwneud yn anodd i yrrwyr i ddarllen yr arwydd.

***Daeth y cyfarfod i ben am*** **8.20 pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Cyfarfod Misol Nos Iau 18fed Gorffennaf 2019 at 7pm.**

= = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = =

(Llofnod/Dyddiad)